CYMRU WLEDIG
LPIP
RURAL WALES

# Papur Briffio Maniffestos: Polisïau ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru



Ardaloedd gwledig yw dros 80% o arwynebedd tir Cymru, ac maent yn gartref i dros filiwn o bobl neu tua un rhan o dair o boblogaeth y wlad. Mae ardaloedd gwledig Cymru yn diriogaeth amrywiol sydd â phoblogaeth amrywiol ac economi eang, ac mae'n cynnwys nifer fawr o drefi a phentrefi y mae gan bob un ohonynt eu buddiannau a'u hanghenion penodol eu hunain. At hynny, fodd bynnag, ceir heriau cyffredin ac anghenion o ran polisi sy'n berthnasol ar draws ardaloedd gwledig Cymru, o ffermydd yr ucheldir yn Eryri i bentrefi ym Mro Morgannwg lle mae cymudwyr yn byw. Caiff y rhain eu llywio gan nodweddion cyffredin megis natur wledig, gan gynnwys poblogaeth lai trwchus a chymunedau llai o faint; natur anghysbell ac ymylol; rhwydweithiau trafnidiaeth a chyfathrebu prin; marchnadoedd cyfyngedig a marchnadoedd llafur cyfyngedig; 'canol coll' o ran busnesau, a lefelau uchel o hunangyflogaeth; pobl ifanc yn allfudo, a heneiddio demograffig; a gweledigaethau anghyson ar gyfer tir lle mae amaethyddiaeth a choedwigaeth yn fwy amlwg nag unrhyw ddiwydiant arall ar hyn o bryd.

Mae'r Papur Briffio Maniffestos hwn yn amlinellu syniadau seiliedig ar dystiolaeth, 'parod i faniffesto', ar gyfer polisïau a allai gael eu mabwysiadu gan bleidiau sy'n sefyll yn etholiadau'r Senedd yn 2026. Mae wedi'i baratoi gan **Cymru Wledig LPIP Rural Wales**, sef consortiwm annibynnol, amhleidiol a ariennir gan **Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig (UKRI)**, er mwyn ei gwneud yn bosibl i wybodaeth o ymchwil gael ei throsglwyddo i gefnogi polisïau arloesol ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru. Mae gweithgareddau Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn canolbwyntio ar gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llunio a chyflawni polisïau (sy'n cynnwys cyflawni ymchwil wedi'i thargedu ynghylch anghenion penodol o ran tystiolaeth; integreiddio a dadansoddi data; cynnal arolygon; broceru gwybodaeth rhwng ymchwil sy'n bodoli eisoes a llunwyr polisi); dod o hyd i atebion i heriau o ran polisi (gan gynnwys drwy Labordai Arloesi cyfranogol gyda rhanddeiliaid); a grymuso cymunedau i ddeall problemau lleol a mynd i'r afael â nhw (drwy Ymchwil Weithredu a arweinir gan Gymunedau).

Nid yw Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn grŵp lobïo ac nid oes ganddi unrhyw fuddiannau breintiedig. Yn wahanol i 'faniffestos' a lunnir gan sefydliadau eraill, nid yw'r cynigion a geir yma'n bethau y gofynnir amdanynt. Yn hytrach, mae'r Papur Briffio Maniffestos yn cyflwyno rhestr o syniadau y gall pleidiau ddewis mesurau o'u plith i'w cynnwys yn eu maniffestos. Mae'r holl syniadau a amlinellir wedi'u seilio ar waith ymchwil a dadansoddi cadarn sy'n deillio o weithgareddau neu argymhellion Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn dilyn prosiectau ymchwil diweddar eraill. Mae rhagor o fanylion am waith yr LPIP ac am astudiaethau eraill yr ydym wedi manteisio arnynt i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen.

Mae'r holl ystod o feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i'r Senedd yn effeithio ar gymunedau yn ardaloedd gwledig Cymru, o amaethyddiaeth i iechyd a chadwraeth. Mae'r Papur Briffio Maniffestos hwn yn ymdrin â materion ar draws y sbectrwm hwn, ond yr unig syniadau am bolisïau y mae'n eu cynnwys yw rhai sy'n seiliedig ar ymchwil ac sy'n cael eu cefnogi gan dystiolaeth. Nid yw, felly, yn lasbrint polisi cynhwysfawr ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru ac nid yw rhai pynciau'n cael sylw penodol ynddo. Rydym wedi trefnu'r syniadau am bolisïau o gwmpas pum prif her sy'n wynebu ardaloedd gwledig Cymru yn ôl ein hymchwil: Cyflawni twf economaidd sydd o fudd i gymunedau gwledig; Sicrhau bod y diwydiant cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn addas i'r dyfodol; Mynediad teg i wasanaethau ar gyfer pobl yn ardaloedd gwledig Cymru; Datblygu gwytnwch cymunedau; a Pholisi cydlynol, integredig ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru.

## Her 1:

# Cyflawni twf economaidd sydd o fudd i gymunedau gwledig



# Y sefyllfa bresennol

Ar sail y rhan fwyaf o ddangosyddion confensiynol, mae economi ardaloedd gwledig Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill Cymru a'r DU. Mae cynhyrchiant, fel y caiff ei fesur gan Werth Ychwanegol Gros y pen, yn cyfateb i 86% o gyfartaledd Cymru a 62% o gyfartaledd y DU.[1] Mae enillion wythnosol canolrifol yn is na chyfartaledd Cymru yn 8 o'r 10 ardal awdurdod lleol sy'n wledig yn bennaf.[2] Mae nifer y busnesau a gaiff eu cychwyn, o gymharu â'r boblogaeth sydd o oedran gweithio, tua chwarter yn is na'r gyfradd ar draws y DU gyfan.[3] Caiff cyfleoedd o ran twf eu llunio a'u cyfyngu gan farchnadoedd lleol cyfyngedig, gweithlu bach, sylfaen sgiliau anghyson, seilwaith trafnidiaeth bylchog, heriau o ran cael gafael ar dai fforddiadwy, a strwythur y sector busnes. Mae nifer y cyflogwyr mawr sydd yn ardaloedd gwledig Cymru yn gymharol fach, a cheir 'canol coll' o ran busnesau sydd o faint canolig. Ar y llaw arall, caiff 44% o'r gweithlu yn ardaloedd gwledig Cymru eu cyflogi mewn microfentrau,[4] ac mae bron 18% o'r gweithlu yn hunangyflogedig.[5]

Cyn 2020, roedd ardaloedd gwledig Cymru yn cael cyllid ar gyfer datblygu economaidd o Gronfa Gydgyfeirio'r UE a Rhaglen Datblygu Gwledig y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae busnesau a chymunedau yn ardaloedd gwledig Cymru wedi gorfod addasu i'r ffaith bod y cyllid hwn wedi dod i ben, ac wedi gorfod addasu i nodau, meini prawf a systemau gwahanol rhaglenni ôl-Brexit, sy'n cynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, 'Bargeinion Twf' a'r Gronfa Twf Lleol. Mae cyfweliadau a gweithdai a gynhaliwyd gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales a phrosiectau eraill wedi nodi pryderon am y ffaith bod cymunedau gwledig yn cael eu gwthio i'r ymylon mewn rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ddinasoedd, a phryderon am bwyslais ar fodelau ar gyfer twf sy'n canolbwyntio ar ardaloedd trefol ac nad ydynt yn addas i leoliadau gwledig.

Mae ymchwil gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales hefyd wedi nodi amheuaeth ymhlith trigolion a busnesau gwledig ynghylch y cysyniad o 'dwf economaidd' a systemau confensiynol ar gyfer ysgogi datblygu rhanbarthol. Yn aml, nid yw trigolion ardaloedd gwledig am i'w cymunedau 'dyfu' yn sylweddol, ac maent yn amau mewnfuddsoddiadau y bernir eu bod yn creu swyddi ar gyfer pobl sy'n symud i'r ardal a'u bod yn mynd ag unrhyw elw allan ohoni. Mae llawer o fusnesau gwledig yn fodlon â'u maint ac nid ydynt am ehangu. Nododd ein hadroddiad saith dealltwriaeth wahanol o dwf mewn trefi bach gwledig, a gellir eu crynhoi fel pwyslais ar dwf sy'n gyfystyr â gwella yn hytrach nag ehangu, a diddordeb mewn cynyddu cyfleoedd i bobl fyw, gweithio ac aros mewn ardaloedd gwledig.

1 Ffigurau ar gyfer 2023. Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, drwy StatsCymru.

2 Ffigurau ar gyfer 2024. Yr wyth ardal yw Bro Morgannwg, Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Powys, Sir Benfro, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin. Mae enillion yn uwch na chyfartaledd Cymru ar Ynys Môn ac yn Sir Fynwy. Ffynhonnell: StatsCymru.

3 Ffigurau ar gyfer 2024. Ffynhonnell: StatsCymru.

4 Mae gan ficrofentrau lai na 10 o weithwyr. Y ffigur ar gyfer Cymru gyfan yw 34%. Ffigurau ar gyfer 2023. Ffynhonnell: StatsCymru.

5 Y ffigur ar gyfer Cymru gyfan yw 12%. Ffigurau ar gyfer 2025. Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

# Syniadau am bolisïau

## 1.1 Defnyddio'r Gronfa Twf Lleol i gefnogi mentrau mewn trefi bach a phentrefi gwledig, sy'n ceisio hybu'r gwaith o ddatblygu busnesau sy'n eiddo i bobl leol neu i'r gymuned; creu swyddi neu ddarparu hyfforddiant er mwyn helpu pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig neu ddychwelyd iddynt; neu fuddsoddi yn yr 'economi sylfaenol' sy'n diwallu anghenion sylfaenol mewn cymunedau.

### Y rhesymeg

Mae'r modd y mae'r Gronfa Twf Lleol wedi'i llunio ar hyn o bryd yn adlewyrchu i raddau helaeth syniadau confensiynol am dwf economaidd, nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â chapasiti a buddiannau cymunedau gwledig. I sicrhau bod y Gronfa Twf Lleol yn esgor ar fanteision ar draws Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, dylai gynnwys mentrau sy'n mynd i'r afael â'r saith 'math' o dwf a fynegwyd gan drigolion trefi bach yn ymchwil Cymru Wledig LPIP Rural Wales: twf fel ffordd o feithrin cymuned; twf o'r gwaelod i fyny; twf fel ffordd o barhau a goroesi; twf trwy gyfrwng cyfleoedd; twf sylfaenol; a thwf cynaliadwy yn ogystal â thwf traddodiadol.

Gellir ehangu'r cwmpas drwy addasiadau cymharol fach i nodau a gofynion y Gronfa Twf Lleol a'r meini prawf ar gyfer cymhwystra.

## 1.2 Comisiynu Dangosyddion Llesiant Economaidd Lleol newydd sy'n adlewyrchu'n fwy cywir berfformiad, capasiti ac uchelgais ardaloedd gwledig.

### Y rhesymeg

Mae polisïau datblygu economaidd yn tueddu i droi o gwmpas mesurau confensiynol perfformiad economaidd, sy'n cynnwys cynhyrchiant, nifer y busnesau sy'n cael eu cychwyn, a nifer y swyddi sy'n cael eu creu. Mae ymchwil gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi dangos nad yw'r dangosyddion hyn o reidrwydd yn adlewyrchu canfyddiadau ynghylch llesiant economaidd a thwf ymhlith trigolion a busnesau mewn ardaloedd gwledig.

Gellir camddiagnosio cyflwr economaidd ardaloedd gwledig, felly, a chefnogi buddsoddiadau amhriodol. Byddai datblygu Dangosyddion Llesiant Economaidd Lleol newydd sy'n cynnwys ystod ehangach o amcanion, er enghraifft creu cyfleoedd i bobl ifanc leol, sicrhau bod incwm a gynhyrchir yn cael ei gadw mewn ardaloedd, gwella lefelau cyflogau, neu ychwanegu gwerth at dreftadaeth leol, yn ei gwneud yn bosibl cael darlun mwy cywir o lesiant economaidd lleol; yn helpu i ategu achosion busnes dros wariant cyhoeddus, sy'n canolbwyntio'n fwy penodol ar angen lleol; ac yn ei gwneud yn bosibl gwerthuso canlyniadau prosiectau mewn modd mwy ystyrlon. Dylai'r Dangosyddion gael eu cynhyrchu ar y cyd â chymunedau a dylent gyd-fynd â'r Nodau Llesiant.

## 1.3 Cyflwyno pecyn o fesurau sy'n galluogi'r diwydiant adeiladu a busnesau cysylltiedig yn ardaloedd gwledig Cymru i fodloni'r galwadau sy'n deillio o'r angen i symud i ffynonellau ynni newydd.

### Y rhesymeg

Mae Cynlluniau Ynni Ardal Leol a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol yn amlinellu'r rhaglen waith sylweddol sy'n ofynnol er mwyn symud Cymru i ddyfodol ôl-garbon o ran ynni, sy'n cynnwys gwneud gwaith ôl-osod ar gartrefi ac adeiladau er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni gartref, gosod seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan, ac – mewn ardaloedd gwledig yn enwedig – addasu cartrefi fel nad ydynt yn dibynnu ar olew gwresogi.

Bydd bodloni'r galw hwn yn gofyn am ehangu'r diwydiant adeiladu a busnesau cysylltiedig yn sylweddol yn ardaloedd gwledig Cymru a gwella eu sgiliau. Fodd bynnag, mae Labordy Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar yr Economi Adfywiol wedi nodi nifer o rwystrau, sy'n cynnwys ansicrwydd o ran cynllunio busnes, heriau o ran recriwtio, a hyfforddiant tameidiog. Cynigiodd cyfranogwyr yn y Labordy Arloesi, a dynnwyd o'r diwydiant ac o blith rhanddeiliaid eraill, sawl ateb y gellid eu cyfuno i greu pecyn o fesurau gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r rheini yn cynnwys llunio 'rhestr arfaethedig' o waith sydd ar ddod er mwyn galluogi busnesau i gynllunio'n fwy effeithlon a galluogi unigolion i ymuno â'r sector yn hyderus; cryfhau gwaith recriwtio drwy hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd o ran gwaith; ehangu hyfforddiant er mwyn gwella sgiliau gweithwyr proffesiynol a gweithwyr yn y sector, gan gynnwys hyfforddiant mwy systemig sy'n mynd y tu hwnt i sgiliau i osod modelau unigol penodol; a thargedu pobl sydd wedi symud o ardaloedd gwledig Cymru ac sy'n rhedeg busnesau neu'n gweithio yn y sector yn rhywle arall, er mwyn eu hannog i symud yn ôl i'r rhanbarth.

## 1.4 Sefydlu canolfannau creadigol yn ardaloedd gwledig Cymru er mwyn ysgogi twf yn y sector creadigol a hybu datblygu busnes, gyda phob canolfan yn canolbwyntio ar ddiwydiant diwylliannol gwahanol ac yn seiliedig ar sefydliad neu fusnes angori.

### Y rhesymeg

Mae gan ardaloedd gwledig Cymru economi greadigol lewyrchus, sy'n cynnwys gweithwyr llawrydd a microfentrau yn bennaf ac sy'n aml yn cael ei hanwybyddu mewn strategaethau ar gyfer datblygu economaidd. Mae cryfderau presennol yn cynnwys busnesau sy'n gweithio ym maes ffilm, teledu, cerddoriaeth, gemau cyfrifiadurol a ffasiwn, ymhlith meysydd eraill. Gallai ehangu'r sector hwn fod o help hefyd i gadw pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig.

Canfu arolwg o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru a gynhaliwyd ar gyfer prosiect ROBUST yn 2021 fod gan un o bob tri o'r ymatebwyr ddiddordeb mewn gweithio mewn diwydiannau creadigol, ar draws ystod eang o swyddi.

Gallai rhwydwaith o ganolfannau creadigol mewn trefi bach yn ardaloedd gwledig Cymru ganolbwyntio ar wahanol ddiwydiannau mewn gwahanol ardaloedd, a gallent adlewyrchu clystyrau presennol o arbenigedd a bod wedi'u hangori gan gwmni neu sefydliad mwy o faint sy'n darparu cymorth i fusnesau bach a gweithwyr llawrydd drwy gynnig mannau gweithio ac adnoddau a gweithgareddau rhwydweithio – gan adeiladu ar fodel Yr Egin yng Nghaerfyrddin.

## 1.5 Cyflwyno cynllun i gefnogi entrepreneuriaid ifanc yn ardaloedd gwledig Cymru i roi prawf ar syniadau a sefydlu busnesau.

### Y rhesymeg

Canfu arolwg ROBUST o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn 2021 fod 22% o'r ymatebwyr wedi dweud y byddai'n well ganddynt fod yn hunangyflogedig neu redeg eu busnes eu hunain, pan gawsant eu holi ynglŷn â'u hamgylchedd gweithio delfrydol. Dyma oedd yr amgylchedd gweithio mwyaf poblogaidd ymhlith dynion ifanc, a chafodd ei ddewis gan bron un o bob tri o'r ymatebwyr. Fodd bynnag, nododd ymchwil ar gyfer ROBUST hefyd fod rhanddeiliaid o'r farn nad oedd entrepreneuriaeth yn cael ei hyrwyddo fel opsiwn o ran gyrfa mewn ysgolion a cholegau a bod cymorth i entrepreneuriaid ifanc yn ardaloedd gwledig Cymru yn gyfyngedig.

Un eithriad nodedig a nodwyd oedd y cynllun Llwyddo'n Lleol 2050 a gaiff ei redeg gan Fenter Môn, gyda phobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn dan raglen ARFOR I. Cafodd y cyfranogwyr arweiniad a gwasanaeth mentora gan arbenigwyr er mwyn llunio cynllun busnes; grant o £1,000 i gychwyn busnes; a chyllid i weithio un diwrnod yr wythnos am chwe mis er mwyn datblygu eu syniad busnes. Byddai'r syniad hwn am bolisi yn rhoi'r model dan sylw ar waith ar draws holl ardaloedd gwledig Cymru, a byddai'n agored i siaradwyr Cymraeg ac i bobl ddi-Gymraeg.

## 1.6 Hyrwyddo strategaeth ar gyfer twristiaeth adfywiol sensitif o safbwynt diwylliannol ac amgylcheddol, sydd o fudd i gymunedau lleol, gan gydweithio â Croeso Cymru ac awdurdodau lleol.

### Y rhesymeg

Mae twristiaeth yn rhan bwysig o'r economi yn ardaloedd gwledig Cymru, ac mae'n cynhyrchu dros £7500 miliwn y flwyddyn o incwm ac yn cyflogi dros 80,000 o bobl.[6] Fodd bynnag, mae ymweliadau twristiaeth ynghyd â'u manteision a'u heffeithiau cysylltiedig wedi'u canoli mewn modd anghymesur mewn rhannau penodol o Gymru, ac mae tua un o bob tri ymweliad gan dwristiaid yn ymweliadau ag Eryri a Sir Benfro.[7] Yn ogystal, gwelwyd ymwybyddiaeth gynyddol o effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol twristiaeth, yn enwedig yn yr ardaloedd lle ceir y niferoedd mwyaf o dwristiaid. Mae niferoedd cynyddol o gartrefi gwyliau, er enghraifft, nid yn unig yn tynnu eiddo allan o'r farchnad dai a'r farchnad rhentu eiddo yn lleol ond hefyd yn hwyluso mathau o dwristiaeth lle gallai gwariant mewn economïau lleol fod yn gyfyngedig.

6 Amcangyfrifon STEAM.

7 Arolwg Traciwr Defnyddwyr Twristiaeth y DU: Proffil Cymru, Haf 2024.

Mae twristiaeth adfywiol yn gysyniad sydd wedi'i droi yn un poblogaidd ar lefel ryngwladol, ac mae'n pwysleisio twristiaeth sydd nid yn unig yn sensitif i ddiwylliannau ac amgylcheddau lleol ond hefyd yn ceisio cymryd camau i fod o fudd i gymunedau lleol. Er enghraifft, gallai twristiaeth adfywiol olygu rhoi blaenoriaeth i fusnesau lleol a bwyd lleol, cynnig profiadau ymgolli er mwyn datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant lleol, gwirfoddoli ar brosiectau amgylcheddol, a chreu a chefnogi cyfleusterau a gwasanaethau sydd nid yn unig ar gyfer twristiaid ond sydd i'w defnyddio drwy gydol y flwyddyn gan gymunedau lleol hefyd.

Bu'r prosiect Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth (CUPHAT) yn rhoi prawf ar y potensial, ac yn dangos y potensial, ar gyfer twristiaeth adfywiol yng Nghymru. Byddai'r syniad hwn am bolisi'n golygu ymrwymo i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Twristiaeth Adfywiol ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru, wedi'i chyd-gynhyrchu gyda mewnbwn gan gymunedau. Byddai'n golygu bod gweithgarwch hyrwyddo gan Croeso Cymru yn troi i gyfeiriad twristiaeth adfywiol ac yn golygu cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn hwyluso polisïau a mentrau lleol.

## 1.7 Newid y rheol ynghylch defnydd blynyddol gofynnol, ar gyfer darparwyr llety a osodir yn fasnachol, o 182 o ddiwrnodau i 145 o ddiwrnodau ar gyfer llety ar ffermydd mewn ardaloedd gwledig anghysbell er mwyn galluogi a chynorthwyo mwy o ffermydd teuluol bach i arallgyfeirio a chyfrannu ymhellach i economïau lleol ar draws ardaloedd gwledig Cymru.

### Y rhesymeg

Mae'r rheol 182 o ddiwrnodau ynghylch defnydd blynyddol gofynnol ar gyfer llety a osodir yn fasnachol yn golygu bod modd codi Ardrethi Busnes ar lety gwyliau a gaiff ei osod am fwy o ddiwrnodau na'r trothwy uchod, yn hytrach na'r Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi. Canfu ymchwil Cymru Wledig LPIP Rural Wales ynghylch menywod ac arallgyfeirio ym maes ffermio nad oes gan lawer o lety gwyliau ar ffermydd dymor digon hir i gyrraedd y trothwy o 182 o ddiwrnodau.

Mae hynny'n peri rhwystredigaeth i ffermwyr a menywod fferm sydd wedi arallgyfeirio i faes twristiaeth wedi iddynt gael eu hannog i wneud hynny gan bolisïau datblygu gwledig blaenorol ond sy'n teimlo eu bod yn cael eu cosbi oherwydd eu lleoliad a bod elw busnesau llety ar ffermydd yn cael ei leihau. Byddai gostwng y trothwy ar gyfer defnydd (neu, fel arall, eithrio llety gwyliau ar ffermydd) yn dileu'r rhwystr hwn, yn cyfrannu i gynaliadwyedd ariannol ffermydd, ac yn annog rhagor o ffermydd i arallgyfeirio i faes twristiaeth, a fyddai'n creu busnesau ac yn cyfrannu i'r economi wledig.

## 1.8 Cyflwyno Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig sydd wedi'i deilwra i anghenion penodol busnesau bach sydd mewn trefi bach a chymunedau gwledig, gan gynnwys busnesau sy'n arallgyfeirio ym maes ffermio.

### Y rhesymeg

Mae ymchwil gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi pwysleisio gwerth gwasanaethau cynghori megis Busnes Cymru a Cyswllt Ffermio o ran cynorthwyo busnesau (yn achos Busnes Cymru) a chynorthwyo cymunedau amaethyddol (yn achos Cyswllt Ffermio) yn ardaloedd gwledig Cymru. Fodd bynnag, mae dwy astudiaeth ar wahân gan y yr LPIP ynghylch canfyddiadau o dwf yn yr economi wledig ac ynghylch menywod ac arallgyfeirio ym maes ffermio wedi nodi'n annibynnol bryderon bod yna fylchau yn y ddarpariaeth o safbwynt cyd-destunau busnesau gwledig yn benodol.

Nododd yr astudiaeth gyntaf fod busnesau lleol a sefydlwyd fel ffynhonnell incwm ar gyfer y sawl sy'n symud i ardaloedd gwledig Cymru am resymau'n ymwneud â ffordd o fyw, nad oes ganddynt ddiddordeb mewn 'tyfu' y busnes, yn teimlo nad yw gwasanaethau cynghori busnes wedi'u teilwra yn briodol i'w hangen nhw; a nododd yr astudiaeth hefyd fod ar fentrau cymunedol angen cyngor am faterion penodol sy'n gysylltiedig â'u perchnogaeth a'u modelau busnes, nad yw gwasanaethau cynghori presennol yn ymdrin â nhw'n gyffredinol.

Canfu'r ail astudiaeth fod busnesau sy'n arallgyfeirio ym maes ffermio'n teimlo yn aml eu bod yn syrthio rhwng y cyngor a gynigir gan wasanaethau cymorth busnes, megis Busnes Cymru, a'r gwasanaethau cynghori a ddarperir i ffermydd, megis Cyswllt Ffermio. Byddai Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig pwrpasol yn cyfuno elfennau o'r cynlluniau presennol mewn gwasanaeth a fyddai wedi'i deilwra i anghenion penodol busnesau gwledig bach, mentrau cymunedol, a busnesau sy'n arallgyfeirio ym maes ffermio.

## 1.9 Creu Cynllun Prentisiaethau Gwledig sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc weithio mewn sectorau allweddol yn yr economi wledig – cyfleoedd sydd wedi'u teilwra i amgylcheddau busnesau gwledig.

### Y rhesymeg

Mae cyfranogwyr yn Labordai Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi dadlau nad yw cynlluniau prentisiaethau presennol yn gweithio'n ddigonol ar gyfer sectorau o'r economi wledig megis adeiladu, garddwriaeth a chynhyrchu bwyd. Mae teimladau tebyg wedi'u mynegi mewn cyfweliadau ehangach a gynhaliwyd gan y yr LPIP ac mewn gweithdai yn y prosiect ROBUST blaenorol.

Ystyrir mai'r prif heriau yw maint bach llawer o fusnesau gwledig a'u capasiti i fforddio cyflogi prentisiaid ac i gyflawni'r gwaith gweinyddu angenrheidiol; natur dymhorol peth gwaith mewn ardaloedd gwledig; a phroblemau trafnidiaeth wrth geisio manteisio ar gyfleoedd o ran prentisiaethau. Ar yr un pryd, mae'r sectorau hyn hefyd yn ei chael yn anodd recriwtio gweithwyr newydd. Mae'r cynnig i gyflwyno Cynllun Prentisiaethau Gwledig wedi'i deilwra wedi'i wneud gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei Maniffesto Gwledig.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar ddiwydiannau allweddol yn yr economi wledig, sy'n cynnwys amaethyddiaeth, prosesu bwyd, twristiaeth, adeiladu a thechnolegau gwyrdd, gallai strwythur ac amodau Cynllun Prentisiaethau Gwledig fynd i'r afael â heriau gwledig neilltuol, er enghraifft drwy ei gwneud yn bosibl i brentisiaethau gael eu rhannu rhwng amryw gyflogwyr a thrwy ddarparu cymorth gweinyddol canolog – gan ddilyn esiampl rhaglen brentisiaethau Cyfle ar gyfer y sector adeiladu yn ne-orllewin Cymru.

## Her 2:

# Sicrhau bod y diwydiant cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn addas i’r dyfodol



# Y sefyllfa bresennol

Mae cynhyrchu bwyd drwy ffermio a phrosesu bwyd yn greiddiol i hunaniaeth ardaloedd gwledig Cymru, ond mae ei bwysigrwydd o ran cyflogaeth a'r economi yn crebachu. Caiff tua 90% o dir Cymru ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gwaith cynhyrchu amaethyddol[8] ac mae'r sector amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth yn cyflogi 2,500 o bobl yn y deg ardal awdurdod lleol sy'n wledig yn bennaf, neu tua 6% o'r gweithlu.[9] Mae amaethyddiaeth ar ei phen ei hun yn cyfrannu 0.7% o Werth Ychwanegol Gros yng Nghymru, ond o gyfuno amaethyddiaeth â phrosesu bwyd a diod mae cyfraniad y sector bwyd-amaeth yn cyfateb i oddeutu 15% o Werth Ychwanegol Gros.[10]

Mae'r system fwyd yng Nghymru yn agored i niwed mewn sawl ffordd. Mae'r holl wahanol fathau o ffermydd sydd yng Nghymru, ar wahân i ffermydd godro, yn gwneud colled ar weithgareddau ffermio pan gaiff cymorthdaliadau cyhoeddus eu diystyru.[11] Mae'r capasiti i brosesu bwyd yng Nghymru wedi crebachu hefyd, ac mewn sectorau megis y sector llaeth mae angen i'r rhan fwyaf o'r cynnyrch adael Cymru i gael ei brosesu. Ar yr un pryd, dim ond yn rhannol y mae Cymru yn hunangynhaliol o ran y bwyd sydd ei angen arni.

Er nad oes ystadegau ar gael ar gyfer llif bwyd rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU, dim ond 60% o'r bwyd a fwyteir sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU (a chaiff peth o hwnnw ei allforio) ac mae'r DU yn mewnforio 46% o'r bwyd y mae'n ei fwyta. Nid yw'n bosibl i bob math o fwyd gael ei gynhyrchu yng Nghymru, ond mae Cymru yn dibynnu ar fewnforio sawl cnwd y gellir eu tyfu yma.

Bydd tueddiadau prosiectau yn y dyfodol yn effeithio ar integriti system fwyd Cymru, gan gynnwys effeithiau hinsawdd sy'n newid ar gynhyrchiant cnydau; effeithiau tywydd eithafol mwy dwys; canlyniadau cytundebau masnach y DU; a newidiadau mewn patrymau bwyta, sy'n cynnwys twf mewn dietau sy'n seiliedig ar blanhigion a chystadleuaeth bosibl gan brotein a gynhyrchir mewn labordy.

Ar nodyn fwy gobeithiol, mae ymchwil wedi nodi diddordeb cyson gan bobl ifanc yn ardaloedd gwledig Cymru mewn dechrau ffermio, yn ogystal â diddordeb cymunedol ehangach mewn tyfu bwyd. Eto i gyd, mae'r ddau grŵp hyn yn wynebu rhwystrau nodedig sy'n eu hatal rhag cyfranogi mewn cynhyrchu bwyd.

8 Arolwg Llywodraeth Cymru o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, Mehefin 2024.

9 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth 2024.

10 Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig, Tachwedd 2025; Arfarniad Economaidd o Fwyd a Diod Cymru 2023.

11 Arolwg o Fusnesau Fferm 2024.

# Syniadau am bolisïau

## 2.1 Ei gwneud yn haws i dir sy'n eiddo i'r cyhoedd ddod ar gael ar gyfer ffermydd cymunedol a phrosiectau tyfu

### Y rhesymeg

Ceir llawer o ddiddordeb mewn prosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru, ond yn aml bydd grwpiau'n wynebu problemau wrth geisio cael gafael ar dir sy'n addas. Mae ar y rhan fwyaf ohonynt angen darnau eithaf bach o dir, ond mae'r arian sydd ar gael iddynt brynu neu rentu tir yn gyfyngedig hefyd. Mae cynlluniau cyhoeddus presennol megis rhandiroedd yn tueddu i fod yn gynlluniau y mae gormod o alw amdanynt, neu'n tueddu i fod yn anaddas ar gyfer prosiectau cymunedol cyfunol.

Byddai'r polisi hwn yn ceisio galluogi prosiectau ffermio a thyfu cymunedol i ddefnyddio rhai o'r daliadau tir cyhoeddus sylweddol sydd yng Nghymru, gan gynnwys tir sy'n eiddo i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Gallai camau gweithredu gynnwys nodi a mapio tir addas i'w gynnig ar gyfer tyfu cymunedol; symleiddio gweithdrefnau ar gyfer prydlesi byrdymor ac ar gyfer trosglwyddo asedau; prydlesu tir ar sail cyfraddau is; creu templedi ar gyfer cynlluniau rheoli; hyrwyddo rheolaeth ar y cyd a phartneriaethau rhwng cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol; ac ailbennu'r defnydd a wneir o ffermydd sy'n eiddo i gynghorau. Mae enghreifftiau'n cynnwys Partneriaeth Ffermydd y Dyfodol ym Mhowys, sydd wedi bod yn treialu creu ffermydd bach newydd ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, gan gynnwys trosglwyddo 38 erw o dir ffermio sirol o berchnogaeth gymunedol; a Bremenda Isaf yn Sir Gaerfyrddin, lle mae rhan o fferm sy'n eiddo i'r cyngor wedi'i neilltuo er mwyn tyfu ffrwythau a llysiau ffres a fforddiadwy o safon ar gyfer ysgolion a chyfleusterau gofal.

## 2.2 Cynorthwyo'r sawl sydd am ddechrau ffermio, drwy hyrwyddo tenantiaethau ffermio a rennir a chwmnïau cydweithredol, sy'n cynnwys newid trefniadau tenantiaeth ar gyfer ffermydd sy'n eiddo i'r cyhoedd er mwyn annog y modelau hyn.

### Y rhesymeg

Mae olyniaeth ar ffermydd yn bryder yn y sector amaethyddol yng Nghymru, er gwaethaf arwyddion bod gan bobl ifanc ddiddordeb mewn dechrau ffermio. Canfu'r arolwg o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru yn 2021 fod gan tua 10% o'r bobl ifanc a arolygwyd, a oedd o gefndir ffermio ac fel arall, ddiddordeb mewn ffermio fel gyrfa. Fodd bynnag, mae modelau etifeddu traddodiadol a chost cyfalaf prynu a datblygu fferm yn rhwystrau. Canfu ymchwil Cymru Wledig LPIP Rural Wales ynghylch menywod ac arallgyfeirio ym maes ffermio fod gan fenywod ifanc o deuluoedd ffermio gyfleoedd mwy cyfyngedig yn aml i etifeddu ffermydd a pharhau i ffermio, sy'n golygu bod llawer ohonynt yn gadael ffermio neu'n gweithio fel gweithiwr fferm neu fel aelod o'r teulu sy'n ymwneud â rheoli'r busnes i raddau cyfyngedig.

Mae'r sawl sy'n dyheu am fod yn ffermwyr ond nad ydynt yn dod o gefndir ffermio yn wynebu heriau gwahanol o ran dod o hyd i dir a chodi cyfalaf i brynu eiddo neu gymryd eiddo ar brydles a datblygu busnesau fferm. Mae tenantiaethau ffermio a rennir a chwmnïau cydweithredol ym maes ffermio yn cynnig modelau amgen sy'n galluogi perchnogaeth a rheolaeth ar y cyd ar ffermydd – sy'n cynnwys creu mwy o gyfleoedd i ffermwyr sy'n fenywod – ac yn ffordd o rannu baich costau cyfalaf. Gallai ffermydd sy'n eiddo i'r cyhoedd, gan gynnwys ystadau ffermydd awdurdodau lleol, ddarparu llwyfan ar gyfer hyrwyddo'r modelau hyn, drwy adolygu trefniadau tenantiaeth er mwyn hysbysebu ac annog opsiynau'n ffurfiol ar gyfer tenantiaethau a rennir neu denantiaethau cydweithredol pan fydd prydlesi'n dod ar gael.

## 2.3 Adolygu Canllawiau Polisi Cynllunio er mwyn galluogi datblygiadau cymysg bach newydd ar ffermydd, a allai gynnwys adeiladau gwaith a seilwaith ar gyfer ffermio a garddwriaeth, siopau ar ffermydd, caffis a mannau cymunedol, cyfleusterau hyfforddi, a chartrefi ar gyfer gweithwyr amaethyddol a garddwriaethol.

### Y rhesymeg

Nododd Labordy Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Bontio i Sero Net mai un rhwystr allweddol i ddatblygu'r sector garddwriaeth yng Nghymru yw nid yn unig argaeledd tir ffermio ond hefyd argaeledd cyfleusterau gerllaw ar gyfer prosesu a manwerthu ac argaeledd cartrefi ar gyfer y gweithwyr y mae eu hangen ar fentrau garddwriaethol newydd.

Yn aml, caiff y gwaith o gyd-ddatblygu cyfleusterau o'r fath ei rwystro gan y modd y caiff rheolau cynllunio eu dehongli. Byddai'r polisi hwn yn adeiladu ar esiampl Partneriaeth Ffermydd y Dyfodol ym Mhowys, sydd wedi adolygu canllawiau cynllunio'n llwyddiannus er mwyn caniatáu datblygu tair fferm newydd sy'n cynnwys cartrefi, adeiladau gwaith a seilwaith.

## 2.4 Hyrwyddo datblygu garddwriaeth yng Nghymru er mwyn gwella diogeledd bwyd, cael mynediad i farchnadoedd defnyddwyr sy'n tyfu, a chryfhau cynaliadwyedd ariannol amaethyddiaeth yng Nghymru – gan gynnwys drwy adfer perllannau blaenorol ac ailgyflwyno arferion ffermio cymysg. Annog gwestai, tafarnau a bwytai i ddefnyddio ffrwythau a llysiau a dyfwyd yn lleol, a sefydlu tafarnau fel canolfannau rhwydweithio a gwybodaeth ar gyfer garddwriaeth leol.

### Y rhesymeg

Mae ymchwil gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales ac eraill wedi nodi potensial sylweddol i ehangu'r sector garddwriaeth yng Nghymru. Gallai hynny wella diogeledd bwyd Cymru drwy leihau dibyniaeth ar fewnforio ffrwythau a llysiau; creu ffrydiau incwm newydd ar gyfer ffermydd; helpu i hyrwyddo arferion bwyta mwy iach; a chyfrannu at leihau allyriadau carbon. Yn ei lyfr *Tir* nododd yr awdur, Carwyn Graves, fod garddwriaeth ar un adeg yn rhan bwysig o dirwedd wledig Cymru a bod y rhan fwyaf o ffermydd yn draddodiadol yn ffermydd cymysg da byw, llysiau a ffrwythau.

Felly, gall datblygu garddwriaeth, o'i wneud yn y ffordd gywir, adfer treftadaeth wledig Cymru. Mae Labordai Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi nodi sawl menter ar gyfer hyrwyddo garddwriaeth, sy'n cynnwys datblygu bwydydd cyfleus Cymreig sy'n seiliedig ar blanhigion, a chynllun i annog gwestai, tafarnau a bwytai i ddefnyddio ffrwythau a llysiau a dyfwyd yn lleol, y rhoddir prawf arno drwy brosiect peilot yn 2026. Byddai hynny'n adeiladu ar gynlluniau marchnata presennol megis Hybu Cig Cymru sy'n hyrwyddo cig Cymreig, a mentrau eraill sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo cawsiau, diodydd a chynnyrch arall o Gymru.

## 2.5 Sicrhau bod gan genhedlaeth newydd o ffermwyr a rheolwyr tir y sgiliau ar gyfer arferion gwydn o safbwynt amgylcheddol, sy'n cynnwys ffermio caredig i natur, amaeth-goedwigaeth, amaethyddiaeth ddigidol a garddwriaeth carbon isel, drwy hyfforddiant a gyflwynir yn hyblyg sy'n hygyrch i gyfranogwyr mewn lleoliadau ar draws ardaloedd gwledig Cymru.

### Y rhesymeg

Mae sicrhau bod y system fwyd a ffermio yng Nghymru yn addas i'r dyfodol yn golygu datblygu sgiliau newydd a gwahanol ymhlith ffermwyr, rheolwyr tir, garddwriaethwyr a phobl eraill sy'n ymwneud â thyfu a chynhyrchu bwyd. Mae rhai o'r sgiliau hynny'n ymateb i dechnolegau newydd, megis amaethyddiaeth ddigidol a deallusrwydd artiffisial; mae a wnelo sgiliau eraill ag ailddysgu hen arferion sy'n ymwneud â ffermio caredig i natur a rheoli tir yn gynaliadwy.

Er enghraifft, pwysleisiodd cyfranogwyr yn Labordy Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Bontio i Sero Net fod angen ehangu cyfleoedd o ran hyfforddiant ym maes garddwriaeth fel amod ar gyfer datblygu sector garddwriaeth carbon isel; yn yr un modd, mae astudiaethau wedi dangos bod y potensial i dechnolegau newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, fod o fudd i amaethyddiaeth yng Nghymru yn dibynnu ar wella sgiliau ffermwyr a hyfforddi ffermwyr newydd.

Caiff hyfforddiant ym maes rhai o'r sgiliau hyn ei gynnig gan ddarparwyr megis Coleg y Mynydd Du a Choleg Meirion-Dwyfor Glynllifon, ac mae garddwriaeth yn un o'r meysydd allweddol a gaiff sylw gan y campws galwedigaethol newydd yn Llanbedr Pont Steffan a gynigir gan Gyngor Ceredigion. Byddai'r polisi hwn yn mabwysiadu dull mwy strategol o weithredu, ac yn adnabod anghenion a bylchau mewn darpariaeth, yn cydgysylltu darpariaeth bresennol, ac yn cefnogi systemau ar gyfer sicrhau bod cyfleoedd yn hygyrch ar draws ardaloedd gwledig Cymru.

## 2.6 Ymgorffori ymwybyddiaeth o gynhyrchu a defnyddio bwyd mewn addysg, drwy ddull ysgol gyfan o weithredu sy'n ymgorffori llythrennedd bwyd yn y cwricwlwm, sy'n datblygu sgiliau coginio, sy'n meithrin partneriaethau â ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd lleol, ac sy'n rhoi blaenoriaeth i gaffael yn lleol ar gyfer prydau ysgol.

### Y rhesymeg

Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae o ran hyrwyddo arferion bwyta iach, cefnogi systemau bwyd lleol a chodi ymwybyddiaeth o waith cynhyrchu bwyd, fel y cydnabyddir mewn canllawiau diweddar gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Synnwyr Bwyd Cymru ac mewn adroddiadau gan fentrau megis Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035.

Mae'r syniad hwn am bolisi, a gynigir gan Labordy Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Lesiant, yn mynd y tu hwnt i fentrau wedi'u targedu, er enghraifft ynghylch caffael, ac yn symud i fabwysiadu dull ysgol gyfan o weithredu: ymgorffori 'llythrennedd bwyd' yn y cwricwlwm a thrwy goginio gyda phlant a theuluoedd; hyfforddi athrawon ym maes 'arweinyddiaeth o ran bwyd'; newid bwydlenni ysgolion a defnyddio cynnyrch a chyflenwyr lleol; a thyfu bwyd ar iardiau ysgolion. Byddai'n adeiladu ar waith peilot gan Cegin y Bobl yn Llanelli, ac mae wedi'i ysbrydoli gan y fenter Ysgolion Bwyd Copenhagen yn Nenmarc a'r Prosiect Iard Ysgol Fwytadwy.

Mae gwaith rhagorol wedi'i gyflawni hefyd gan Gyngor Sir Fynwy a Maint Cymru, sydd wedi cyd-ddylunio bwydlen heb ddatgoedwigo gyda myfyrwyr.

## 2.7 Cefnogi cyflwyno cynlluniau nod barcud lleol, a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol neu grwpiau cymunedol, i hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol a chydnabod siopau, gwestai a lleoedd bwyta sy'n defnyddio cynnyrch lleol.

### Y rhesymeg

Mae brandio cynnyrch bwyd fel cynnyrch 'Cymreig' wedi bod yn bwysig o safbwynt cynyddu ymwybyddiaeth o fwyd o Gymru, sy'n newid arferion defnyddwyr ac yn ychwanegu gwerth at y sector bwyd-amaeth yng Nghymru. Mae ymchwil gan Busnes Cymru wedi canfod y byddai 78% o siopwyr yng Nghymru yn prynu cynnyrch Cymreig pe bai'r pris yn iawn, ac y byddai 44% yn fodlon talu mwy am gynnyrch Cymreig. Fodd bynnag, ceir diddordeb cynyddol mewn brandio sy'n medru galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau tebyg am gynnyrch o'u hardal fwy lleol.

Er enghraifft, mae Prosiect Ymchwil a arweinir gan Gymunedau, a hwyluswyd gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Benrhyn Dewi, wedi bod yn archwilio dichonoldeb nod barcud 'Gwnaed ar y Penrhyn' ar gyfer bwyd lleol ac ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau eraill; ysbrydolwyd hynny gan fentrau presennol megis Genuine Jersey, Made in Northamptonshire a Colne-U-Copia. Byddai'r polisi hwn yn cefnogi datblygu cynlluniau nod barcud lleol gan awdurdodau lleol, cymdeithasau busnes neu grwpiau cymunedol. Byddai'r rhain yn fodd i adnabod bwyd sy'n tarddu o fewn ardal benodol, megis sir neu bellter o 30 milltir.

Gallai nodau barcud o wahanol liwiau fod yn berthnasol i fwyd sydd wedi'i gynhyrchu ar ffermydd yn yr ardal, bwyd sydd wedi'i brosesu yn yr ardal, a bwyd sydd wedi'i gynhyrchu a'i brosesu yn yr ardal (mae ymchwil yn Sir Fynwy wedi tynnu sylw at gymhlethdodau o ran pennu terfynau ar gyfer beth a gaiff ei ystyried yn 'fwyd lleol').

Yn ogystal â chynnyrch bwyd, gallai nodau barcud gael eu dyfarnu hefyd i siopau, bwytai, tafarnau a chaffis sy'n prynu cyfran benodol o fwyd a werthir gan gyflenwyr lleol.

## 2.8 Sefydlu rhwydwaith o Fentoriaid System Fwyd cymwys er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r system fwyd, mynd i'r afael â thlodi bwyd, hyrwyddo arferion bwyta iach a chysylltu defnyddwyr â chyflenwyr bwyd lleol.

### Y rhesymeg

Mae'r syniad hwn wedi'i gynnig gan gyfranogwyr yn Labordy Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Lesiant, a nododd fod diffyg dealltwriaeth gyhoeddus o'r system fwyd yn rhwystr i leihau tlodi bwyd yn ardaloedd gwledig Cymru ac i ddatblygu diwylliant bwyd sy'n fwy cynaliadwy.

Byddai Mentoriaid System Fwyd yn gweithio gyda banciau bwyd, mannau cynnes, ysgolion, meddygfeydd meddygon teulu a grwpiau cymunedol i helpu unigolion i feithrin dealltwriaeth well o'r bwyd y maent yn ei fwyta ac o sut mae cael gafael ar fwyd maethlon a fforddiadwy a'i baratoi, a fyddai'n arwain at ddewisiadau gwell ynghylch diet ac ynghylch siopa am fwyd.

Drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o darddiad bwyd, ymgysylltu â chynhyrchwyr bwyd a chyflenwyr lleol a darparu cyngor ynghylch ffynonellau bwyd lleol, gall Mentoriaid System Fwyd helpu hefyd i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer bwyd Cymreig a chyfrannu at wirio bod system fwyd Cymru yn addas i'r dyfodol.

Her 3:

# Mynediad teg i wasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig



# Y sefyllfa bresennol

Mae'r ffaith bod poblogaeth ardaloedd gwledig yn llai trwchus yn lleihau'r gronfa bosibl o ddefnyddwyr neu gwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a masnachol ac yn cynyddu costau eu darparu. Bernir, felly, nad yw llawer o wasanaethau'n hyfyw mewn cymunedau gwledig llai o faint, ac mae nifer a dosbarthiad sawl gwasanaeth allweddol wedi lleihau gydag amser. Mae toriadau ym maes gwariant cyhoeddus wedi effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu mewn cymunedau gwledig.

O'u haddasu ar gyfer chwyddiant, syrthiodd taliadau Grant Cynnal Refeniw i'r deg o ardaloedd awdurdod lleol gwledig sydd yng Nghymru 8.6% ar gyfartaledd rhwng 2010-11 a 2023-24, o gymharu â 5.0% ar gyfartaledd ar draws Cymru gyfan.[12] Mae'r cyfuniad o bwysau cyllidol, strategaeth addysgegol a'r angen i fynd i'r afael ag adeiladau hen ffasiwn wedi cyfrannu i ostyngiad o 21% yn nifer yr ysgolion cynradd sydd yn siroedd gwledig Cymru ers 2009-10, ac mae llawer o ysgolion wedi'u cau mewn cymunedau gwledig llai o faint lle mae nifer y disgyblion sy'n cofrestru ar eu cyfer yn gyfyngedig.[13] Yn yr un modd, soniwyd am broblemau cynllunio olyniaeth ar gyfer meddygfeydd meddygon teulu mewn nifer o drefi bach a chymunedau gwledig.

Mae nifer y gwasanaethau a weithredir yn fasnachol wedi gostwng hefyd mewn llawer o drefi bach a chymunedau gwledig, yn enwedig gwasanaethau bancio. Mae dros 200 o ganghennau banciau wedi cau yng Nghymru ers 2015, ac roedd dros hanner y rheini mewn siroedd gwledig.[14] Canfu arolwg gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn 2025 mai dim ond mewn 55% o'r 161 o gymunedau a gymerodd ran yn yr arolwg yr oedd darpariaeth gofal plant ar gael.

Caiff y rheidrwydd i drigolion mewn llawer o gymunedau gwledig deithio er mwyn cael mynediad i wasanaethau allweddol ei adlewyrchu mewn perchnogaeth uwch na'r cyffredin ar geir, ac mae hynny'n ei dro yn cynyddu costau byw ar gyfer aelwydydd. Mae trigolion sydd heb fynediad i gludiant preifat yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n cynyddu amserau teithio'n sylweddol.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod cyfartaledd yr amser y mae trigolion pentrefi, pentrefi bach ac anheddau anghysbell mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth yng Nghymru yn ei dreulio'n teithio i siop fwyd 1 awr 20 munud yn hirach ar drafnidiaeth gyhoeddus nag mewn car, 1 awr 13 munud yn hirach i ysgol gynradd, ac 1 awr 29 munud yn hirach i feddygfa meddygon teulu.[15]

Ar nodyn mwy gobeithiol, gwelwyd diddordeb cynyddol ymhlith grwpiau cymunedol mewn cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau a chyfleusterau y mae perygl y byddant yn cau. Er enghraifft, canfu arolwg Cymru Wledig LPIP Rural Wales o gymunedau enghreifftiau o berchnogaeth gymunedol ar siopau, swyddfeydd post, caffis, tafarnau a llyfrgelloedd.

[12] Ffynhonnell: StatsCymru.
[13] Ffynhonnell: StatsCymru.
[14] Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig – Adroddiad Tystiolaeth 2021.
[15] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Ffynhonnell: StatsCymru.

## Syniadau am bolisïau

### 3.1 Deddfu i ddiffinio a gorfodi lefel o Seilwaith Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru, wedi'i mynegi fel y gymhareb o wasanaethau neu gyfleusterau allweddol i nifer y trigolion fesul ardal awdurdod lleol, na all darpariaeth ddisgyn yn is na hi, neu uchafswm yr amser teithio i wasanaethau allweddol, sy'n ymdrin â gofal iechyd, addysg, yr heddlu, llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden.

#### Y rhesymeg

Mae'r cysyniad o Seilwaith Sylfaenol Cyffredinol wedi'i ddatblygu gan yr economegydd Diane Coyle yn Sefydliad Bennett ym Mhrifysgol Caergrawnt. Byddai cynnig y Sefydliad yn pennu fformiwla y pen na all gwasanaethau cyhoeddus ddisgyn yn is na hi: ni fyddai modd cau na lleihau gwasanaethau a chyfleusterau lleol craidd i lefel sydd islaw safonau gofynnol.

Yn yr un modd, dylai rheoleiddwyr cwmnïau preifat sy'n darparu gwasanaethau tebyg i gyfleustodau, megis trafnidiaeth neu fand eang, fynnu bod y cwmnïau hynny'n cyrraedd safonau cyffredinol gofynnol yn rhan o'u trwydded gymdeithasol i weithredu. Nid yw adroddiad Caergrawnt yn cynnig trothwyau – byddai angen i'r rheini gael eu sefydlu ar gyfer Cymru drwy broses ymgynghori; ond mae'n amlinellu saith egwyddor ar gyfer Seilwaith Sylfaenol Cyffredinol ac yn archwilio sut y gallai gwarant Seilwaith Sylfaenol Cyffredinol weithio yng nghyswllt gofal iechyd, ysgolion, plismona, bancio a swyddfeydd post.

Mae'n cynnig y dylai cyllid i gefnogi gwarant Seilwaith Sylfaenol Cyffredinol gynnwys addasu fformiwlâu ar gyfer cyllid grant llywodraeth leol, aildargedu rhaglenni y bwriedir iddynt fynd i'r afael ag anghydraddoldebau tiriogaethol, a'r posibilrwydd o gyflwyno taliadau ardrethi busnes ychwanegol.

### 3.2 Grymuso awdurdodau lleol i godi ardrethi busnes ychwanegol er mwyn codi arian i gynnal asedau cymunedol cofrestredig os yw perchnogion yn methu â chyrraedd safonau gofynnol ac, yn niffyg dim arall, defnyddio trefniadau prynu gorfodol ar sail y gwerth ardrethol sydd wedi'i ddatgan.

#### Y rhesymeg

Mae'r adroddiad ynghylch Seilwaith Sylfaenol Cyffredinol gan Diane Coyle a'i chydweithwyr ym Mhrifysgol Caergrawnt yn nodi pwysigrwydd asedau cymunedol sy'n rhan o seilwaith cymdeithasol lle, ac sy'n cyfrannu i lesiant lleol a hunaniaeth pobl ac i falchder bro. Mae rhai ohonynt yn rhan o gyfleusterau a seilwaith llywodraeth leol, ond mae llawer ohonynt yn eiddo i asiantaethau cyhoeddus cenedlaethol neu'r sector preifat neu'n cael eu rheoli ganddynt, ac maent mewn perygl o gael eu cau, o ddirywio neu o gael eu gadael mewn cyflwr gwael, yn enwedig gan nad yw eu gwerth cymdeithasol efallai'n rhan o gyfrifiadau busnesau ynghylch hyfywedd.

Mae enghreifftiau Coyle yn canolbwyntio ar ardaloedd trefol, ond gallai enghreifftiau mewn trefi bach a phentrefi gynnwys tafarnau, marchnadoedd, siopau pentref, theatrau a sinemâu, clybiau chwaraeon, caffis, lleoliadau adloniant ac atyniadau i dwristiaid. Mae enghreifftiau o asedau agored i niwed a reolir gan asiantaethau cyhoeddus cenedlaethol yn cynnwys y penderfyniad dadleuol gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gau canolfannau ymwelwyr mewn tri safle yn y canolbarth.

Gellid cynnwys eglwysi a chapeli hefyd. Mae cynnig penodol yn yr adroddiad ynghylch Seilwaith Sylfaenol Cyffredinol yn awgrymu cyflwyno pwerau i ganiatáu i awdurdodau lleol godi ardrethi busnes ychwanegol ar eiddo lle nad yw safonau gofynnol wedi cael eu bodloni, er mwyn ariannu gwaith cynnal a chadw, ac yn niffyg dim arall, defnyddio trefniadau prynu gorfodol ar sail y gwerth ardrethol sydd wedi'i ddatgan. *Gweler hefyd y cynnig isod ynghylch Hawl Cymunedau i Brynu.*

## 3.3 Mynnu bod trefniadau masnachfreinio ar gyfer gwasanaethau bysiau cyhoeddus yn modelu'r effeithiau y bydd newidiadau i wasanaethau'n eu cael ar fynediad i ofal iechyd, cyflogaeth a hyfforddiant o gymunedau gwledig, a mynnu eu bod yn ymgynghori ynghylch yr effeithiau hynny.

### Y rhesymeg

Mae Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), sy'n mynd drwy'r Senedd adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, yn cyflwyno trefniadau masnachfreinio newydd a fydd yn galluogi awdurdodau cyhoeddus i ddylanwadu ar lwybrau ac amserlenni gwasanaethau bysiau. Bydd y pwerau hynny'n arbennig o berthnasol i ardaloedd gwledig Cymru, lle mae gwasanaethau bysiau wedi crebachu'n sylweddol. Mae gwaith ymgysylltu Cymru Wledig LPIP Rural Wales ag amryw randdeiliaid wedi dangos bod newidiadau i wasanaethau bysiau'n gallu cael effeithiau anfwriadol sylweddol ar fynediad i gyflogaeth, hyfforddiant, gofal iechyd a gwasanaethau eraill.

Roedd un enghraifft a nodwyd yn disgrifio sefyllfa lle nad oedd prentisiaid mwyach yn gallu mynychu cwrs addysg bellach un diwrnod yr wythnos oherwydd newidiadau i wasanaeth bws. Mae'r effeithiau hyn wedi digwydd oherwydd bod gwasanaethau wedi cael eu tynnu'n ôl, bod llwybrau wedi cael eu newid neu fod amserlenni wedi cael eu diwygio heb fodelu canlyniadau neu heb ymgynghori â'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt.

Byddai'r polisi hwn yn sicrhau bod yn rhaid i effeithiau newidiadau i wasanaethau gael eu hystyried yn llawn mewn penderfyniadau ynghylch masnachfreinio, a fyddai'n cynnwys ymgynghori gorfodol ag awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, byrddau iechyd, ysgolion, colegau a chyflogwyr mawr.

## 3.4 Darparu cyllid i sefydlu canolfannau gwasanaethau cymunedol gwledig, mewn neuaddau cymunedol, swyddfeydd post, tafarnau, capeli, llyfrgelloedd, siopau neu adeiladau priodol eraill, er mwyn darparu mynediad i wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau dethol yn y sector preifat (e.e. gwasanaethau bancio) nad ydynt yn hyfyw fel cyfleusterau ar eu pen eu hunain.

### Y rhesymeg

Mae canolfannau gwasanaethau cymunedol yn darparu ateb posibl o ran cynnal mynediad i wasanaethau nad ydynt yn hyfyw fel cyfleusterau ar eu pen eu hunain mewn cymunedau gwledig bach. Ceir modelau gwahanol, ond yn ddelfrydol mae canolfannau gwasanaethau'n golygu cydleoli dau neu fwy o wasanaethau ar yr un safle sy'n ganolbwynt ar gyfer dalgylch ehangach ac y caiff mynediad iddo ei hwyluso gan seilwaith cysylltiedig megis gwasanaethau bysiau neu fand eang cyflym.

Mae rhai canolfannau o'r fath yn cydgrynhoi gwasanaethau mewn cyfleuster presennol megis neuadd gymunedol neu dafarn; gallai eraill olygu cael eiddo a gaiff ei adeiladu'n bwrpasol. Mae rhai'n cynnwys gweithgaredd masnachol megis caffi, a all ddarparu ffrwd refeniw; mae eraill yn ddielw ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw weithgaredd masnachu.

Pan fydd canolfannau gwasanaethau cymunedol wedi'u sefydlu, gallant fod yn rhad i'w cynnal a/neu gall gweithgareddau masnachol sydd wedi'u cydleoli â nhw fod yn ffynhonnell cymorth ariannol; ond gall costau cychwyn fod yn rhwystr i sefydlu canolfannau.

Byddai'r polisi hwn yn creu cynllun cyllido i helpu i greu canolfannau gwasanaethau cymunedol gwledig newydd, sy'n cynnwys costau cyfalaf. At hynny, gellid ystyried diwygio canllawiau polisi cynllunio er mwyn ei gwneud yn haws troi eiddo'n lle defnydd cymysg ar gyfer canolfannau gwasanaethau.

## 3.5 Ehangu'r ddarpariaeth o ran gofal plant mewn ardaloedd gwledig, drwy becyn o fesurau sy'n cynnwys grantiau cychwyn ar gyfer busnesau gofal plant, buddsoddiad mewn hyfforddiant, cymorth ar gyfer modelau arloesol a hyblyg, a thaliadau ychwanegol at y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru i ddarparwyr bach mewn ardaloedd dynodedig lle mae darpariaeth yn brin.

### Y rhesymeg

Er gwaethaf mentrau diweddar megis y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru, mae mynediad i ofal plant yn dal yn her fawr i deuluoedd mewn rhannau niferus o ardaloedd gwledig Cymru. Canfu arolwg Cymru Wledig LPIP Rural Wales o gymunedau ddechrau 2025 mai dim ond 55% o'r 161 o gymunedau a ymatebodd oedd â rhywun sy'n darparu gofal plant.

At hynny, mae ymchwil gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi sôn bod problemau cael mynediad i ofal plant yn rhwystr sylweddol i fenywod sy’n rhedeg busnesau arallgyfeirio ym maes ffermio. Mae gwaith ymgysylltu Cymru Wledig LPIP Rural Wales â rhanddeiliaid yng Nghymru yn ategu tystiolaeth o astudiaeth gan Lywodraeth yr Alban mai’r prif heriau ar gyfer darpariaeth o ran gofal plant mewn ardaloedd gwledig yw costau rhedeg unedau bach sydd â nifer gyfyngedig o gwsmeriaid sy’n talu, recriwtio staff cymwys neu gael mynediad i hyfforddiant, dod o hyd i safle priodol, a mynediad cwsmeriaid i drafnidiaeth.

Mae’r camau gweithredu y gellid eu cynnwys yn rhan o becyn o bolisïau i ehangu gofal plant mewn ardaloedd gwledig yn cynnwys darparu grantiau cychwyn wedi’u neilltuo i fusnesau gofal plant newydd; darparu cymorth i ehangu cyfleoedd i gael hyfforddiant ynghylch gofal plant mewn colegau sy’n gwasanaethu ardaloedd gwledig a thrwy drefniadau dysgu o bell; hyrwyddo modelau arloesol a hyblyg sy’n cynnwys meithrinfeydd awyr agored a gofal sy’n pontio’r cenedlaethau; a chymorth i sicrhau bod mannau cymunedol ar gael i’w defnyddio gan ddarparwyr gofal plant.

Yn ogystal, mae’r cynnig ynghylch polisïau yn cynnwys ychwanegu cyllid drwy’r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru, gyda thaliad ychwanegol bach ar gyfer pob lle a ariennir i ddarparwyr bach gofal plant mewn ardaloedd gwledig dynodedig lle mae darparwyr yn brin, a hynny er mwyn cydnabod costau uwch staffio a thrafnidiaeth.

## Her 4:

# Datblygu gwytnwch cymunedau



# Y sefyllfa bresennol

Mae gweithredu cymunedol wedi bod yn rhan bwysig o wytnwch cymdeithasol ac economaidd yn ardaloedd gwledig Cymru ers dros ddeugain mlynedd. Mae mentrau sy'n seiliedig ar gymunedau wedi cryfhau hunaniaeth leol a llesiant, wedi gwarchod treftadaeth, wedi hyrwyddo twristiaeth, wedi cefnogi busnesau bach ac wedi mynd i'r afael â thlodi gwledig ac anghydraddoldebau cymdeithasol. Yn gynyddol, mae mudiadau cymunedol wedi cymryd cyfrifoldeb am fusnesau, gwasanaethau a chyfleusterau y mae awdurdodau lleol, asiantaethau cyhoeddus neu gwmnïau'r sector preifat o'r farn nad ydynt yn hyfyw.

Mae prosiectau ynni cymunedol a chynlluniau cludiant cymunedol wedi amlhau, ac mae ymddiriedolaethau tir cymunedol wedi dechrau ymwneud â darparu atebion i broblemau o ran mynediad i dai mewn ardaloedd gwledig. Yn o leiaf hanner y 161 o gymunedau a arolygwyd gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales ddechrau 2025, roedd y cyngor cymuned neu fudiad cymunedol arall wedi cymryd perchnogaeth neu reolaeth ar ased cymunedol allweddol yn ystod y pum mlynedd blaenorol – asedau a oedd yn amrywio o feysydd chwarae a thoiledau cyhoeddus i siopau, caffis, tafarnau a llyfrgelloedd.

Roedd gan chwarter y cymunedau fws mini cymunedol neu gynllun galw'r gyrrwr, ac roedd gan 18% ohonynt gynllun ynni cymunedol a oedd yn eiddo'n gyfan gwbl i'r gymuned. Yn 43% o'r cymunedau, roedd yna fanc bwyd cymunedol a gâi ei redeg gan wirfoddolwyr. Mae gwaith a gyflawnwyd gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn dangos sut y gall y prosiectau cymunedol hyn gyflawni manteision lluosog, sy'n cynnwys datgarboneiddio, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a diffyg diogeledd bwyd, cynyddu gwytnwch cymunedau, a chryfhau economïau gwledig. Eto i gyd, caiff y capasiti ar gyfer gweithredu cymunedol yng Nghymru ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth sy'n llai ffafriol na'r ddeddfwriaeth yn Lloegr neu'r Alban.

At hynny, mae adnoddau ar gyfer prosiectau cymunedol gwledig wedi'u dihysbyddu wrth i'r Rhaglen Datblygu Gwledig a gâi ei hariannu gan yr UE ddod i ben, yn enwedig y fenter LEADER ar gyfer datblygu lleol dan arweiniad y gymuned, a oedd wedi cefnogi elfennau sylweddol o'r seilwaith cymdeithasol 'meddal' yn ardaloedd gwledig Cymru.

Er bod rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i ailgyflwyno cymorth ar gyfer prosiectau cymunedol, nid yw'r cymorth hwnnw o'r un maint â'r oddeutu £50 miliwn o gyllid ar gyfer datblygu cymunedol gwledig, a ddarparwyd dan y Rhaglen Datblygu Gwledig rhwng 2014 a 2020.

# Syniadau am bolisïau

## 4.1 Cyflwyno 'Hawl Cymunedau i Brynu' fel opsiwn cyntaf ar gyfer grwpiau cymunedol i brynu asedau cymunedol cofrestredig, sy'n cynnwys gwasanaethau, adeiladau a thir, os cânt eu rhoi ar werth.

### Y rhesymeg

Mae 'Hawl Cymunedau i Brynu' yn fframwaith cyfreithiol sy'n galluogi grwpiau cymunedol i gofrestru diddordeb mewn adeiladau neu dir sy'n asedau pwysig i'r gymuned ac i gael cyfle i brynu asedau o'r fath os cânt eu rhoi ar werth gan eu perchnogion. Mae fframweithiau o'r fath yn gweithredu yn Lloegr a'r Alban, ond nid ydynt yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Cafodd Hawl Cymunedau i Brynu ei chyflwyno yn yr Alban gan Ddeddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003 yn rhan o becyn ehangach o fesurau diwygio tir, ac roedd yn rhoi i gymunedau y cyfle cyntaf i brynu asedau cofrestredig a roddir ar werth.

Cafodd Hawl Cymunedau i Gynnig, sy'n llai hael, ei chyflwyno yn Lloegr gan Ddeddf Lleoliaeth (2011), sy'n ei gwneud yn bosibl oedi am chwe mis cyn gwerthu asedau cofrestredig 'o werth cymunedol' er mwyn rhoi cyfle i'r gymuned godi arian a chynnig prynu'r ased (ond ni roddir unrhyw flaenoriaeth i gymunedau).

Bydd y Bil cyfredol yn Lloegr, sef y Bil Datganoli a Grymuso Cymunedau, yn cryfhau'r ddarpariaeth yn Lloegr ac yn ei throi'n Hawl Cymunedau i Brynu a fydd yn dilyn model yr Alban. Mae ymchwil gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales ac eraill yn dangos bod diffyg Hawl Cymunedau i Brynu yng Nghymru yn cyfyngu nid yn unig ar ymdrechion i warchod asedau allweddol ond hefyd ar fentrau ynni cymunedol a mentrau tyfu cymunedol newydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau o blaid cyflwyno Hawl Cymunedau i Brynu yng Nghymru, sy'n debyg i'r fframwaith yn yr Alban, sy'n rhoi i gymunedau y cyfle cyntaf i brynu asedau sy'n dod ar werth. Mae cynnig yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn cynnwys Cofrestr Asedau o Werth Cymunedol, cyfnod moratoriwm o ddeuddeg mis, a chyllid cyfalaf a refeniw i wireddu potensial i'r eithaf.

## 4.2 Ailgyflwyno cyllid ar gyfer Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn ardaloedd gwledig Cymru, a fydd yn cymryd lle'r hen raglen LEADER a gâi ei hariannu gan yr UE, er mwyn cefnogi prosiectau bach y bwriedir iddynt gynnal seilwaith cymunedol, hybu cydlyniant a balchder cymunedol, gwella'r amgylchedd lleol a chreu cyfleoedd economaidd ar sail diwylliant, natur a threftadaeth leol.

### Y rhesymeg

Roedd Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn rhan o'r dirwedd o ran datblygu gwledig yng Nghymru am bron 30 mlynedd drwy'r rhaglen LEADER a gâi ei hariannu gan yr UE. Roedd y dull LEADER yn pwysleisio'r angen i gynnwys pobl a mudiadau lleol fel gyrwyr datblygu lleol, a châi hynny ei gydlynu drwy Grwpiau Gweithredu Lleol. I ddechrau, roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru yn sefydliadau annibynnol y câi cyllid ei ddyfarnu iddynt drwy brosesau cystadleuol, ond ar ôl 2007 caent eu harwain gan awdurdodau lleol.

Yn ystod y cyfnod rhaglennu olaf, sef 2014-2020, gwnaeth 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru gefnogi dros 700 o brosiectau, gan ddosbarthu cyllideb gyfun a oedd yn werth dros £47 miliwn. Mae enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd gan Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi yng Ngheredigion yn cynnwys cynlluniau chwarae a hamdden mewn pentrefi, prosiectau gwytnwch gwledig a oedd yn pontio'r cenedlaethau, prosiectau iechyd meddwl, prosiectau treftadaeth, llwybr beicio, menter ymgysylltu cymunedol coetir, ac academi arweinyddiaeth gymunedol.

Yn dilyn Brexit, dewisodd Cymru beidio â pharhau â rhaglen wledig genedlaethol ar gyfer Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned (yn wahanol i'r Alban). Mae gwaith ymgysylltu gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid yn dangos bod diffyg cynllun gwledig cenedlaethol ar gyfer Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned wedi dod yn amlwg, wrth i fentrau a oedd yn bodoli ddod i ben ac wrth iddi fynd yn anos dod o hyd i gyllid ar gyfer prosiectau newydd. Byddai'r polisi hwn yn ailgyflwyno rhaglen wledig genedlaethol ar gyfer Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yng Nghymru er mwyn cefnogi datblygu gwledig a yrrir gan gymunedau.

Nid oes angen o reidrwydd i'r rhaglen fod yr un fath â model LEADER. Dylid ystyried cyfarwyddiadau ac argymhellion ynghylch strwythur a llywodraethiant a geir yn y ddogfen Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru gan gwmni ymchwilio Wavehill.

## 4.3 Cyflwyno rhaglen Gwella Mannau Cymunedol, sy'n darparu cymysgedd o gyllid cyfalaf a refeniw ynghyd â chyngor ac adnoddau ar-lein, er mwyn hybu gwaith moderneiddio ac ôl-osod ar gyfer adeiladau a mannau cymunedol a hybu'r defnydd a wneir ohonynt ar gyfer gweithgareddau sy'n gwella cydlyniant cymunedol, sy'n darparu gwasanaethau llesiant megis mannau cynnes a banciau bwyd, sy'n rhoi sylw i fusnesau lleol, ac sy'n hwyluso pontio i ffynonellau newydd o ynni (e.e. sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy, sy'n darparu cyfleusterau gwefru ar gyfer cerbydau trydan).

### Y rhesymeg

Yn draddodiadol mae neuaddau pentref a mannau tebyg mewn cymunedau gwledig, gan gynnwys tafarnau, wedi hybu cydlyniant cymunedol drwy ddarparu lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymunedol, adloniant, a chyfarfodydd clybiau a chymdeithasau, ond yn gynyddol maent hefyd yn cyfrannu i lesiant cymdeithasol ehangach ac i ddatblygu lleol.

Mae ymchwil yn y prosiect Dyfodol Gwledig, er enghraifft, yn tynnu sylw at fodel newydd o ganolfannau cymunedol sydd, fel mannau amlddefnydd dan arweiniad y gymuned, yn wahanol i neuaddau pentref confensiynol oherwydd eu bod yn cyfrannu i ffyniant mannau gwledig drwy feithrin gweithgarwch economaidd a mynd i'r afael â thlodi. Yn yr un modd, nododd arolwg Cymru Wledig LPIP Rural Wales o gymunedau ystod eang o wahanol ffyrdd y caiff mannau cymunedol eu defnyddio, a oedd yn cynnwys defnydd ohonynt fel banciau bwyd a mannau cynnes.

Mae ymchwil ddilynol wedi nodi bod gan fannau cymunedol y potensial i gynnal prosiectau ynni cymunedol, cynnal mentrau cymunedol sy'n hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl, arddangos mentrau amgylcheddol, a darparu cyfleusterau ar gyfer microfentrau a gweithwyr o bell. Eto i gyd, mae ymchwil ddilynol hefyd wedi nodi bod capasiti ac arbenigedd y cyrff sy'n gyfrifol am reoli mannau cymunedol yn amrywio a bod yna ansicrwydd ariannol sy'n gysylltiedig â chyllid grant tameidiog.

Byddai'r polisi hwn yn ymateb i'r heriau a nodwyd drwy gyflwyno rhaglen unedig i hybu gwella ac uwchraddio mannau cymunedol, sy'n cynnwys cyllid cyfalaf a refeniw a mynediad i hyfforddiant a chyngor.

## 4.4 Creu rhwydwaith i gefnogi ceginau cymunedol a phrosiectau prydau bwyd cymunedol, sy'n defnyddio bwyd i fynd i'r afael â thlodi gwledig ac arwahanrwydd cymdeithasol ac i wella cydlyniant cymunedol, drwy gyngor arbenigol, adnoddau a rennir a phecynnau cymorth.

### Y rhesymeg

Ceir mentrau gwirfoddol mewn llawer o drefi bach a chymunedau gwledig, sy'n darparu prydau bwyd am ddim neu brydau bwyd rhad. Fodd bynnag, mae'r rhain yn tueddu i weithredu ar eu pen eu hunain a heb lawer o gymorth allanol. Byddai'r cynnig hwn gan Labordy Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Lesiant yn cysylltu mentrau â'i gilydd mewn rhwydwaith cenedlaethol o 'geginau cymunedol', ac yn rhoi mynediad i gyngor arbenigol ac adnoddau a rennir, yn ogystal â phecynnau cymorth i sefydlu prosiectau newydd.

Yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â phroblemau o ran tlodi gwledig ac arwahanrwydd cymdeithasol, gallai'r rhwydwaith hefyd gefnogi prosiectau ceginau cymunedol sy'n dod â'r gymuned gyfan ynghyd ar gyfer prydau bwyd cymunedol achlysurol, sy'n cryfhau cydlyniant cymunedol ac yn ceisio osgoi neu liniaru pegynu mewn cymunedau gwledig.

## 4.5 Cyflwyno deddfwriaeth er mwyn mabwysiadu dull strategol o greu cyfoeth cymunedol yng Nghymru, sy'n galluogi mesurau i sicrhau bod cyfoeth economaidd yn cael ei gynhyrchu, ei ddosbarthu a'i gadw mewn cymunedau lleol.

### Y rhesymeg

Mae creu cyfoeth cymunedol yn ddull gweithredu sy'n ceisio cynyddu ffyniant lleol drwy leihau'r llif incwm sy'n mynd allan o economïau lleol a sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o'r cyfoeth a gynhyrchir mewn lle yn cael ei gadw yn yr economi leol. Mae'n ymateb i bryderon am achosion o golli cyfoeth o economïau lleol, sydd wedi dwysáu yn ardaloedd gwledig Cymru wrth i bresenoldeb archfarchnadoedd a siopau cadwyn gynyddu mewn trefi bach, wrth i'r arfer o siopa ar-lein dyfu, ac wrth i dwristiaeth hunanarlwyo ehangu (sy'n cynnwys perchnogion absennol llety gwyliau ac eiddo sydd ar AirBnb).

Gall ystod o gamau gweithredu gyfrannu at greu cyfoeth cymunedol, ac maent yn cynnwys polisïau caffael yn lleol yn gyntaf, nodau barcud sy'n ymwneud â lle, twristiaeth adfywiol, cynlluniau arian cyfred lleol, cefnogi busnesau lleol, a mentrau sy'n eiddo i'r gymuned. Er enghraifft, nododd cyfranogwyr yn Labordy Arloesi Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar Arddwriaeth fod y prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, sy'n llwyddiannus iawn, yn denu llawer mwy o dyfwyr ond bod defnyddio cynnyrch yn ystod gwyliau ysgol yn anodd. Byddai camau gweithredu gan awdurdodau lleol, sy'n cysylltu cynhyrchwyr â llety gwyliau a safleoedd twristiaeth, yn cynorthwyo tyfwyr a'r economi leol.

Byddai'r polisi hwn yn creu strategaeth genedlaethol ar gyfer creu cyfoeth cymunedol, ac yn hwyluso cynlluniau creu cyfoeth lleol, ar sail model Bil Creu Cyfoeth Cymunedol (Yr Alban) sy'n mynd drwy Senedd yr Alban ar hyn o bryd.

## 4.6 Sefydlu rhwydwaith o gydlynwyr lle sy'n rhoi cyngor a chymorth i gymunedau gwledig ynghylch sut mae datblygu mentrau gwrthdlodi a arweinir gan gymunedau mewn lleoedd gwledig.

### Y rhesymeg

Mae ymchwil wedi dangos bod capasiti cymunedau unigol i gynnig am gyllid allanol a rheoli prosiectau a arweinir gan gymunedau yn amrywio'n sylweddol. Yn aml, caiff mentrau cymunedol llwyddiannus eu gyrru gan wirfoddolwyr unigol, ond yn absenoldeb arweinyddiaeth o'r fath gall fod yn anodd sbarduno cymunedau i weithredu.

Mae'r prosiect Dyfodol Gwledig, sydd wedi cael cefnogaeth gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, wedi dangos y gwahaniaeth y gellir ei wneud drwy gyflogi 'cydlynwyr lle' a gaiff eu talu i weithio gyda threfi bach a chymunedau gwledig fel arweinwyr a all sbarduno a hybu gweithredu cymunedol.

Yn dilyn argymhelliad gan y prosiect Dyfodol Gwledig, byddai'r polisi hwn yn sefydlu rhwydwaith o gydlynwyr lle ar draws ardaloedd gwledig Cymru i gynorthwyo cymunedau i ddatblygu syniadau, gwneud ceisiadau am gyllid a gweithredu prosiectau, gan dargedu cymunedau y mae lefel eu hanghenion yn uchel ac sydd â hanes cyfyngedig o sicrhau cyllid grant.

## 4.7 Ehangu hyfforddiant ynghylch arweinyddiaeth a datblygu cymunedol er mwyn gwella capasiti cymunedau gwledig i gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau lleol, sy'n cynnwys Academi Arweinwyr Cymunedol Newydd ar gyfer pobl ifanc.

### Y rhesymeg

Mae datblygu cymunedol yn ardaloedd gwledig Cymru wedi'i hwyluso gan garfan o weithwyr proffesiynol, y gwnaeth llawer ohonynt ymuno â'r sector ac ennill profiad drwy weithio i Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER dan gyllid Ewropeaidd blaenorol. Mae'r ffaith bod y rhaglen LEADER wedi dod i ben yng Nghymru nid yn unig wedi gwasgaru'r arbenigedd a oedd gan weithwyr LEADER ond hefyd wedi torri llwybr allweddol ar gyfer recriwtio a meithrin ymarferwyr datblygu cymunedol newydd.

At hynny, mae rhoi'r gorau i gynnig y cymhwyster MSc mewn Datblygu Cymunedol ym Mhrifysgol Bangor wedi cyfrannu at leihau cyfleoedd i gael hyfforddiant er mwyn ymuno â'r proffesiwn. Yn ogystal, wrth i'r rhaglen LEADER ddod i ben, daeth terfyn ar gyllid i fentrau y bwriedid iddynt feithrin capasiti o ran arweinwyr cymunedol gwirfoddol, megis yr Academi Arweinyddiaeth Gymunedol i bobl ifanc 18-30 oed, a noddwyd gan Cynnal y Cardi yng Ngheredigion yn ystod cyfnod rhaglennu olaf LEADER.

Yn gyntaf, byddai'r polisi hwn yn adfer cyfleoedd o ran hyfforddiant ym maes datblygu cymunedol drwy fynnu bod Medr yn adolygu'r ddarpariaeth bresennol (gan gynnwys darpariaeth Agored Cymru), ac yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch ac addysg bellach i ehangu cyrsiau; ac, yn ail, byddai'n sefydlu cynllun Academi Arweinwyr Cymunedol Newydd cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc, a fyddai'n cael ei chyflwyno drwy gymysgedd o gynnwys ar-lein a chynnwys wyneb yn wyneb.

## Her 5:

# Polisi cydlynol, integredig ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru



## Y sefyllfa bresennol

Un o ganfyddiadau mynych ymchwil gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales yw'r cysylltiad dwys sydd rhwng problemau. Mae datblygu economaidd yn dibynnu ar addysg a hyfforddiant, ond mae hefyd yn dibynnu ar rwydweithiau trafnidiaeth priodol ac ar dai ar gyfer gweithwyr. Caiff y ddarpariaeth o ran gofal iechyd ei llywio gan gyllid cyhoeddus a ffactorau demograffig, ond hefyd gan hygyrchedd trafnidiaeth, seilwaith digidol, hyfforddiant, tai a chyfleoedd o ran ffordd o fyw er mwyn denu a chadw staff.

Mae arallgyfeirio ym maes ffermio yn cael ei lywio gan newidiadau mewn marchnadoedd amaethyddol, ond hefyd gan dueddiadau ym maes twristiaeth, polisïau trethu ac argaeledd gofal plant. Ac yn y blaen. Eto i gyd, caiff gweithredu cydgysylltiedig sy'n ystyried ffactorau amrywiol ei rwystro gan y modd y caiff meysydd polisi eu gwahanu oddi wrth ei gilydd.

Yn dilyn Brexit, gwnaed ymdrechion i integreiddio amaethyddiaeth â pholisïau ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; ond roedd y ffaith bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn dod i ben yn datgysylltu'r polisïau hynny oddi wrth ddatblygu economaidd gwledig a pholisïau ar gyfer cymunedau gwledig. Yn hytrach, mae darostwng datblygu gwledig a'i roi dan fframwaith economaidd rhanbarthol newydd wedi arwain at bryderon bod anghenion ardaloedd gwledig wedi'u gwthio i'r ymylon, fel y cofnodwyd gan ymchwil Cymru Wledig LPIP Rural Wales ynghylch canfyddiadau o 'dwf' yn yr economi wledig.

Mae strwythur tameidiog llywodraethiant lleol yn ardaloedd gwledig Cymru, rhwng 10 awdurdod lleol, pedair 'Bargen Twf', pedair partneriaeth sgiliau rhanbarthol, ac amryw fyrddau iechyd, comisiynwyr heddlu a throseddu, a chyrff cyhoeddus eraill, heb fforwm cyffredin a heb weledigaeth strategol drosfwaol, yn cyfrannu ymhellach i'r canfyddiad o ddiffyg cydlyniant yng nghyswllt polisi gwledig yng Nghymru.

# Syniadau am bolisïau

## 5.1 Cyhoeddi 'Papur Gwyn Gwledig' sy'n amlinellu gweledigaeth gydlynol ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru a mesurau sydd i'w mabwysiadu ar draws pob maes polisi.

### Y rhesymeg

Cafodd y datganiad holistaidd ac integredig diwethaf ynghylch polisi gwledig yng Nghymru ei gyhoeddi bron ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, cyn i ddatganoli ddigwydd, a hynny yn *Cefn Gwlad: Gweithio Dros Gymru*, sef y 'Papur Gwyn Gwledig' a luniwyd gan y Swyddfa Gymreig ar y pryd yn 1996.

Er nad yw 'papurau gwyn' yn rhan o eirfa ffurfiol llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, caiff yr ymadrodd ei ddefnyddio yma fel ffordd hawdd o gyfeirio at ddogfen a fyddai'n egluro rhaglen bolisi gydlynol ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru, a fyddai'n ymdrin â phob maes cymhwysedd sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru – yr economi, addysg, iechyd, trafnidiaeth, tai, yr amgylchedd, amaethyddiaeth, gofal cymdeithasol, cynllunio, llywodraeth leol, diwylliant, yr iaith, ac yn y blaen.

Gallai'r Weledigaeth ar gyfer Cymru Wledig, a luniwyd gan Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda Phrifysgol Aberystwyth yn rhan o brosiect ROBUST yn 2021, ddarparu model ar gyfer cwmpas ac uchelgais dogfen o'r fath.

## 5.2 Deddfu fel bod sicrhau addasrwydd i ardaloedd gwledig yn ofyniad statudol, a fyddai'n mynnu bod effeithiau penderfyniadau polisi ar gymunedau gwledig yn cael eu hasesu'n gyson a bod anghenion ardaloedd gwledig yn cael eu hystyried wrth i Lywodraeth Cymru ddyrannu cyllid ac adnoddau.

### Y rhesymeg

Mae sicrhau addasrwydd i ardaloedd gwledig – neu sgrinio deddfwriaeth arfaethedig a rhaglenni llywodraeth er mwyn asesu eu heffaith ar gymunedau gwledig – yn rhan o arfer sydd wedi ennill ei blwyf yn Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, nid yw'n ofyniad statudol, ac mae gwaith ymgysylltu gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi nodi pryderon ymhlith rhanddeiliaid ynghylch y graddau y mae hynny'n cael ei wneud yn gyson ac yn drylwyr ar draws pob agwedd ar lywodraeth.

Byddai'r cynnig hwn yn gwneud sicrhau addasrwydd i ardaloedd gwledig yng Nghymru yn ofyniad statudol sydd â fframwaith cyson a thrylwyr ar gyfer gweithredu, ar sail model y Ddeddf Anghenion Gwledig (2016) yng Ngogledd Iwerddon a/neu ar sail Deddf Ynysoedd (Yr Alban) 2018 sy'n cydgrynhoi 'Sicrhau Addasrwydd i Ynysoedd' drwy Asesiadau o Effaith ar Gymunedau Ynysoedd fel dyletswydd statudol yn yr Alban.

## 5.3 Sefydlu Senedd Wledig Cymru er mwyn dod â chynrychiolwyr mudiadau cymunedol yn ardaloedd gwledig Cymru ynghyd i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin ac i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, a sefydlu Senedd Ieuenctid Wledig Cymru i gyd-fynd â hi, sy'n cynnwys cyfranogwyr a ddewisir gan ysgolion, colegau, clybiau ffermwyr ifanc a mudiadau ieuenctid eraill.

### Y rhesymeg

Yn wahanol i lawer o wledydd Ewrop, nid oes gan Gymru fforwm neu gymdeithas genedlaethol sy'n cynrychioli cymunedau gwledig neu fudiadau cymunedau gwledig. Caiff buddiannau gwledig eu cynrychioli'n rhannol gan Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o awdurdodau lleol sydd ag ardaloedd gwledig, a chan sefydliadau megis yr undebau amaethwyr. Eto i gyd, nid yw'r rhain yn cynrychioli cymunedau gwledig yn uniongyrchol, a gallai fod ganddynt bryderon craidd gwahanol a mwy penodol. Mae diffyg fforwm cenedlaethol ar gyfer cymunedau gwledig yn golygu nad yw buddiannau cymunedau gwledig yn cael eu clywed mor glir mewn dadleuon ynghylch polisi, ac nad eir ati'n weithredol i lobïo drostynt.

Mae'r cynnig hwn wedi'i seilio ar y model Ewropeaidd o Seneddau Gwledig sy'n rhoi llais i gymunedau gwledig. Nid yw Seneddau Gwledig yn gyrff etholedig sy'n llunio deddfau; yn hytrach maent yn fforymau lle mae cynrychiolwyr mudiadau cymunedau gwledig yn dod ynghyd i drafod materion sy'n bryderon cyffredin iddynt ac i gytuno ar bethau yr hoffent ofyn i lywodraeth amdanynt. Mae Senedd Cefn Gwlad ac Ynysoedd yr Alban, er enghraifft, wedi cyfarfod bob dwy i dair blynedd ers 2014, ac mae'n cynnwys tua 500 o unigolion mewn proses ddemocrataidd gyfranogol i drafod materion allweddol ac i rannu profiadau a syniadau drwy ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein a drefnir gan fudiadau cymunedau gwledig.

Yn 2023, cyfarfu Senedd Ieuenctid gyntaf Cefn Gwlad ac Ynysoedd yr Alban, a oedd yn cynnwys cyfranogwyr a etholwyd o ysgolion, colegau a mudiadau ieuenctid. Byddai'r cynnig hwn yn sefydlu Senedd Wledig a Senedd Ieuenctid Wledig debyg yng Nghymru, gyda chyllid craidd a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

## 5.4 Gefeillio ysgolion gwledig ac ysgolion trefol yng Nghymru â'i gilydd er mwyn hwyluso gweithgareddau cyfnewid ac annog plant i ddysgu am fywyd mewn gwahanol gymunedau a datblygu dealltwriaeth o safbwyntiau gwledig a threfol.

### Y rhesymeg

Mae barn sy'n nodi nad yw buddiannau ardaloedd gwledig Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol mewn polisïau yn tueddu i gyd-fynd â chanfyddiadau bod y cysylltiad rhwng diwylliannau trefol a gwledig wedi'i dorri, hyd yn oed mewn gwlad fach fel Cymru. Nod y polisi hwn yw mynd i'r afael â'r canfyddiad o ddiffyg dealltwriaeth rhwng cymunedau gwledig a threfol drwy ganolbwyntio ar bobl ifanc drwy gynllun i efeillio ysgolion mewn rhannau gwledig o Gymru ag ysgolion mewn rhannau trefol.

Mae wedi'i ysbrydoli gan gynllun tebyg yn rhanbarth Carinthia yn Awstria, y rhoddir sylw iddo ym mhrosiect ROBUST, ond mae hefyd yn adeiladu ar fentrau gefeillio ysgolion mwy lleol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, er enghraifft yng Nghaerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen. Nod gefeillio ysgolion fyddai annog disgyblion i ddysgu am fywyd mewn gwahanol gymunedau a datblygu dealltwriaeth o safbwyntiau gwledig a threfol. Gallai gweithgareddau posibl gynnwys trafodaethau ar-lein, ymweliadau cyfnewid, ysgrifennu llythyrau neu negeseuon ebost, paru ffrindiau gohebu, a chynnal dosbarthiadau ar y cyd.

## 5.5 Darparu cyllid i gorff annibynnol ar gyfer tystiolaeth wledig a gwaith monitro, sy'n casglu, yn dadansoddi ac yn cyhoeddi data gwledig drwy ddangosfwrdd cyhoeddus; sy'n cynnal ymchwil er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer llunio polisïau gwledig; ac sy'n monitro effaith polisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol mewn cymunedau gwledig.

### Y rhesymeg

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi ceisio cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llunio polisïau i ardaloedd gwledig Cymru ac wedi ceisio cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid yn y gwaith o ddod o hyd i atebion arloesol i heriau gwledig. Mae adborth gan bartneriaid a chyfranogwyr wedi dangos bod Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi llenwi bwlch a oedd yn bodoli ers i Arsyllfa Wledig Cymru, a gâi ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ddod i ben yn 2013, a bod yr LPIP wedi cynhyrchu tystiolaeth a dadansoddiadau newydd, mwy helaeth a mwy diweddar ynghylch ystod o faterion.

Mae'r cyfraniad hwnnw wedi bod o gymorth yn arbennig i lenwi bylchau yng nghapasiti awdurdodau lleol ac asiantaethau cyhoeddus eraill i gyflawni gwaith dadansoddi, sydd wedi deillio o gyfyngiadau ar gyllidebau; ac mae hefyd wedi ategu gwaith Ymchwil y Senedd i ddarparu tystiolaeth annibynnol er mwyn hybu'r gwaith o fonitro polisïau sy'n ymwneud ag ardaloedd gwledig Cymru a chraffu arnynt.

Fodd bynnag, gan mai menter arbrofol yw hon yn bennaf, disgwylir y bydd cyllid grant ar gyfer Cymru Wledig LPIP Rural Wales gan UKRI (sef corff Llywodraeth y DU ar gyfer cyllido ymchwil) yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2026. Mae'r polisi hwn o blaid comisiynu corff annibynnol, a ariennir neu a gyd-ariennir gan Lywodraeth Cymru ond sy'n ei reoli ei hun o safbwynt gweithredol, i barhau â'r gwaith a gychwynnwyd gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales o ran darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i hybu'r gwaith o ddatblygu polisïau ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru a chraffu arnynt.

## Ynglŷn â'r ymchwil ategol

Mae'r syniadau am bolisïau sydd wedi'u hamlinellu yn y Papur Briffio Maniffestos hwn wedi'u seilio ar weithgareddau ymchwil ac arloesi a gyflawnwyd gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales, neu ar brosiectau ymchwil diweddar cysylltiedig eraill.

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn fenter dair blynedd a ariennir gan UKRI (sef corff Llywodraeth y DU ar gyfer cyllido ymchwil ac arloesi) er mwyn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llunio polisïau i ardaloedd gwledig Cymru a dod o hyd i atebion arloesol ar gyfer yr heriau o ran polisi sy'n wynebu'r rhanbarth. Mae'r consortiwm yn cynnwys ymchwilwyr o Brifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd a'r Sefydliad Ymchwil i Gefn Gwlad a Chymunedau ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, ac arbenigwyr o Ganolfan y Dechnoleg Amgen, Gyda'n Gilydd Dros Newid, Antur Cymru, Datblygiadau Egni Gwledig, Pontio, Represent Us Rural, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, a Sgema.

Mae prosiectau penodol Cymru Wledig LPIP Rural Wales y manteisiwyd arnynt yn y Papur Briffio Maniffestos hwn yn cynnwys y canlynol:

- **Canfyddiadau o dwf mewn dwy dref farchnad Gymreig** – Astudiaeth a arweiniwyd gan Dr Sophie Bennett-Gillison (Prifysgol Aberystwyth) a oedd yn archwilio dealltwriaeth ac agweddau tuag at 'dwf' yn yr economi wledig, drwy gyfweliadau â busnesau, arweinwyr cymunedol, trigolion mewn dwy astudiaeth achos, sef Llangefni (Ynys Môn) a Llanidloes (Powys), a gweithdy rhanddeiliaid. Adroddiad Llawn. Briff Polisi.
- **Menywod ac arallgyfeirio ym maes ffermio** – Astudiaeth a arweiniwyd gan yr Athro Sara MacBride-Stewart (Prifysgol Caerdydd) ynghylch yr heriau y mae entrepreneuriaid sy'n fenywod yn eu hwynebu yng nghyswllt busnesau arallgyfeirio ym maes ffermio, a oedd yn cynnwys 30 o gyfweliadau â sefydliadau ym maes ffermio ac ag entrepreneuriaid sy'n fenywod. Briff Polisi.
- **Datrys sawl her drwy fentrau sero net** – Astudiaeth a arweiniwyd gan Dr Sophie Wynne-Jones (Prifysgol Bangor) a oedd yn ymchwilio i sut y gall prosiectau sero net fynd i'r afael hefyd â heriau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, ac a oedd yn seiliedig ar gyfweliadau ac astudiaethau achos. Bydd yr Adroddiad a'r Briff Polisi ar gael ar www.lpip.cymru ddechrau 2026.
- **Bwyd a llesiant cymunedol** – Astudiaeth a arweiniwyd gan yr Athro Paul Milbourne (Prifysgol Caerdydd) ynghylch mentrau polisi i fynd i'r afael â thlodi bwyd a hyrwyddo llesiant a chydlyniant cymunedol mewn cymunedau gwledig, a oedd yn cynnwys cyfweliadau â rhanddeiliaid ac astudiaethau achos. Bydd yr Adroddiad a'r Briff Polisi ar gael ar www.lpip.cymru ddechrau 2026.
- **Defnyddio mannau cymunedol, eu rheoli a'u potensial** – Astudiaeth a arweiniwyd gan yr Athro Michael Woods (Prifysgol Aberystwyth) a oedd yn archwilio sut y caiff mannau cymunedol eu defnyddio a'u rheoli ac yn archwilio'r potensial i ehangu eu swyddogaethau, a oedd yn seiliedig ar ddadansoddi astudiaethau achos ac ar gyfweliadau. Bydd yr Adroddiad a'r Briff Polisi ar gael ar www.lpip.cymru ddechrau 2026.

- **Arolwg o wytnwch cymunedau** – Arolwg ar-lein o 161 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru, a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Chwefror 2025 ar y cyd ag Un Llais Cymru. Roedd y cwestiynau'n ymdrin ag asedau cymunedol, busnesau, digwyddiadau, mynediad i fwyd lleol, prosiectau ynni, cydraddoldebau, y Gymraeg, a strwythur a gweithgareddau cynghorau. Bydd adroddiad cryno ar gael ar www.lpip.cymru yn fuan.
- **Labordai Arloesi** – Dyma ffrwd waith a gydlynwyd gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen, a'i nod oedd dod o hyd i atebion arloesol i heriau o ran polisi. Roedd methodoleg gyfranogol y Labordai Arloesi yn golygu gwahodd rhanddeiliaid i gyfres o dri gweithdy i drafod rhwystrau i gyflawni nod neu weledigaeth a ddatganwyd, a nodi ymyriadau i oresgyn y rhwystrau hynny.

  Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi cynnal pedwar Labordy Arloesi, ac mae pob un ohonynt wedi bod yn canolbwyntio ar fater sy'n ymwneud ag un o themâu'r Bartneriaeth: y Labordy Arloesi Economi Adfywiol ynghylch recriwtio llafur yn y diwydiant adeiladu mewn ardaloedd gwledig; y Labordy Arloesi Sero Net ynghylch datblygu sector garddwriaeth carbon isel; y Labordy Arloesi Llesiant mewn Lle ynghylch defnyddio bwyd i hybu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol; a'r Labordy Arloesi Gwytnwch Diwylliannol ynghylch hybu defnydd o'r Gymraeg mewn chwaraeon ar lawr gwlad.

  Mae un ymyriad a gynigiwyd gan bob Labordy Arloesi wedi'i ddewis ar gyfer profion profi cysyniad yn ystod 2026. Bydd Briffiau Polisi yn dilyn y gweithdai ar gael ar www.lpip.cymru yn fuan.
- **Ymchwil weithredu a arweinir gan gymunedau** – Dyma raglen a gydlynwyd gan Gyda'n Gilydd Dros Newid, a oedd yn helpu cymunedau i gyflawni eu hymchwil eu hunain ynghylch blaenoriaeth a nodwyd yn lleol, gyda chymorth mentor academaidd. Cafodd pum prosiect peilot eu cynnal yn ystod 2025 yng Nghorwen, Biosffer Dyfi, y Drenewydd, Penrhyn Dewi a Thrawsfynydd. Mae chwe phrosiect arall wedi cael eu dewis drwy gystadleuaeth agored, ac maent ar y gweill ar hyn o bryd.

At hynny, mae gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales rôl broceru gwybodaeth, sy'n cysylltu ymchwilwyr, llunwyr polisi a rhanddeiliaid â'i gilydd drwy bedwar grŵp thematig er mwyn hwyluso trosglwyddo gwybodaeth o ymchwil flaenorol.

Yn rhan o'r swyddogaeth broceru gwybodaeth, mae'r Papur Briffio Maniffestos hwn hefyd wedi manteisio ar y prosiectau ymchwil canlynol a gwblhawyd cyn i Cymru Wledig LPIP Rural Wales gael ei sefydlu:

- **Rhagolygon Gwledig-Trefol: Datgloi Synergeddau (ROBUST)** – Cydweithrediad rhwng Prifysgol Aberystwyth a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan o brosiect mwy o faint gan yr UE, 2017-21. Yng Nghymru, roedd y prosiect yn golygu crynhoi a dadansoddi tystiolaeth a hwyluso gweithdai rhanddeiliaid er mwyn cynorthwyo i ddatblygu Gweledigaeth ar gyfer Cymru Wledig, ac arolwg ar-lein o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, y cafwyd dros 1,000 o ymatebion iddo. Adroddiad Tystiolaeth. Adroddiad Arolwg o Bobl Ifanc yng Nghefn Gwlad.

- **Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth (CUPHAT)** – Prosiect cydweithredol rhwng Iwerddon a Chymru, a arweiniwyd gan Brifysgol Aberystwyth, er mwyn cynyddu twristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd ucheldiroedd arfordirol yn Iwerddon a Chymru drwy arddangos y dreftadaeth naturiol a diwylliannol, a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, 2022-24. Roedd y prosiect yn cynnwys ymchwil weithredu gyfranogol gyda 12 o gymunedau yn Iwerddon a Chymru, a oedd yn canolbwyntio ar y Preseli a Mynyddoedd Cambria yng Nghymru.
Gwefan.

- **Prosiect Dyfodol Gwledig** – Prosiect ymchwil weithredu a arweiniwyd gan Severn Wye Energy ac a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, 2017-2024, a fu'n cydweithio ag 14 o gymunedau gwledig ar draws Cymru er mwyn llunio a chynnal prosiectau a grëwyd ar lawr gwlad i fynd i'r afael â thlodi gwledig, creu cyfleoedd, a gwneud eu lleoedd yn fwy gwydn.
Gwefan.

## Cysylltu â ni

Os hoffech chi gydweithio neu gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Athro Michael Woods, Cyfarwyddwr, Cymru Wledig LPIP Rural Wales
**lpip@aber.ac.uk**

Gwefan: **www.lpip.cymru**

LinkedIn: **www.linkedin.com/company/cymru-wledig-lpip-rural-wales**

## Ariannwyd gan

UKRI Arts and Humanities Research Council

UKRI Economic and Social Research Council

UKRI Innovate UK

## Partneriaid Craidd

Prifysgol Aberystwyth University

SGEMA

Prifysgol Bangor University

antur cymru enterprise

Gyda'n Gilydd Dros Newid / Together for Change

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

DEG – Datblygiadau Egni Gwledig

CCRI – Countryside and Community Research Institute

Represent Us Rural

## Cynhaliwyd gan

WISERD

Rural Futures Hub

Centre for Alternative Technology / Canolfan y Dechnoleg Amgen

Iechyd a Gofal Gwledig Cymru / Rural Health and Care Wales